Corfforaeth Coleg y Cymoedd
Cod Moeseg ar gyfer Aelodau o'r Gorfforaeth

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r papur briffio hwn yn nodi Cod Moeseg enghreifftiol ar gyfer y Coleg. Nid yw'n ceisio ailadrodd y fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu gweithrediad Colegau, ond mae'n cymryd hynny fel man cychwyn y broses o ddosbarthu pwerau a chyfrifoldebau a nodir mewn deddfwriaeth a'r Offeryn a'r Erthyglau Llywodraethu. Mae'n nodi'r egwyddorion cyffredinol y gellir eu defnyddio i benderfynu ar gamau gweithredu, a fydd yn cydymffurfio â'r gwerthoedd a'r safonau uchel a ddisgwylir yn y sector cyhoeddus.

2. Trosolwg o werthoedd cyffredinol

2.1 Yn holl weithgareddau'r Coleg mae'n bwysig datblygu a hyrwyddo cyfres o werthoedd craidd sy'n berthnasol i'w genhadaeth i ddarparu cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i ddysgwyr.

2.2. Fel sefydliad sector cyhoeddus, mae'r Gorfforaeth yn derbyn bod yn rhaid i'r gwerthoedd hynny gydymffurfio â'r egwyddorion a bennwyd gan Bwyllgor Nolan ar gyfer y rhai sydd mewn swydd gyhoeddus, sef:- anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

2.3. Mae'r Coleg yn cydnabod y rhwymedigaethau i'r dysgwyr, y cyflogwyr a'r gymuned ehangach mae'n ei gwasanaethu. Mae hefyd yn cydnabod ei rwymedigaethau i randdeiliaid, partneriaid a chymdeithion ac, yn arbennig, i'r trethdalwr.

2.4. Mae enw da'r Coleg, gan gynnwys ymddiriedaeth a hyder y rhai mae'n delio â nhw, yn un o'i asedau mwyaf hanfodol, ac mae gwarchod hynny'n hollbwysig.

2.5 Mae'r Coleg yn mynnu ac yn cynnal y safonau moesegol uchaf wrth gyflawni ei weithgareddau.

2.6 Wrth ymwneud ag unigolion bydd y Coleg yn glynu at egwyddorion cyfiawnder naturiol a hawliau sifil a dynol unigolion.

2.7 Bydd y Coleg yn ceisio annog diwylliant o fod yn agored gyda'r nod o sicrhau y gellir trafod materion sy'n ymwneud â gweithrediad y Coleg yn agored gyda staff a dysgwyr. Bydd yn mabwysiadu ac yn cynnal gweithdrefnau chwythu'r chwiban a fydd yn galluogi i bryderon gael eu codi'n gyfrinachol, lle bo hynny'n briodol, y tu mewn i'r

sefydliad ac, os oes angen, y tu allan iddo.

2.8 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i staff a dysgwyr fel ei gilydd ac i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth gwahaniaethu berthnasol.

3. Gwerthoedd sy'n ymwneud â Dysgwyr

3.1 Mae'r Coleg yn credu bod uniondeb wrth ymdrin â'i ddysgwyr neu ddarpar ddysgwyr yn rhagofyniad ar gyfer llwyddiant, ac yn ddatganiad pwysig o'r gwerthoedd y mae'n eu cynnig.

3.2 Ni fydd y Coleg yn fwriadol yn rhoi gwybodaeth annigonol neu gamarweiniol am ei raglenni dysgu neu wasanaethau eraill.

3.3 Ym mhob hysbyseb a chyfathrebiad cyhoeddus, bydd y Coleg yn osgoi anwiredd, celu a gor-ddweud am ei raglenni a'i gyflawniadau. Bydd y Coleg yn osgoi arferion recriwtio sy'n cynnwys cynnig cymhellion ariannol neu gymhellion amhriodol eraill i ddysgwyr.

3.4 Bydd y Coleg yn gwneud pob ymdrech resymol i gyflwyno rhaglenni dysgu a gwasanaethau cymorth i ddiwallu anghenion unigol dysgwyr, yn effeithlon ac yn effeithiol i safonau ansawdd derbyniol, a bydd yn cymryd camau rhesymol i unioni unrhyw ddiffygion yn y gwasanaeth a ddarperir.

3.5 Bydd y cymorth dysgu, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a gaiff eu cynnig i ddysgwyr yn ddiduedd ac yn cael eu harwain gan fuddiannau gorau'r dysgwr.

3.6 Bydd y Coleg yn cyhoeddi datganiad yn nodi'r hyn y gall dysgwyr ac eraill ei ddisgwyl gan y Coleg a manylion ei weithdrefnau cwyno ac apelio. Bydd yn ymdrin â phob dysgwr gyda gofal a pharch cyfartal.

3.7 Bydd y Coleg yn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn deg, yn agored ac yn effeithlon.

3.8 O fewn gofynion y gyfraith ac yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2018, bydd y Coleg yn cadw cyfrinachedd ei wybodaeth am ddysgwyr unigol.

4. Gwerthoedd sy'n ymwneud â'n Partneriaid Addysg

4.1 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i drefniadau cydweithredol a fydd o fudd i'r sefydliad a'i ddysgwyr. Pan fo'r Coleg yn cystadlu ag eraill, bydd y Coleg yn cystadlu'n frwd, ond yn onest, â sefydliadau addysg eraill sy'n cynnig cyfleoedd dysgu tebyg.

4.2 Ni fydd y Coleg yn ceisio niweidio enw da cystadleuwyr na thrydydd partïon eraill naill ai'n uniongyrchol na thrwy ensyniadau.

4.3 Bydd y Coleg yn darparu gwybodaeth am ddysgwyr unigol i'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â diwallu anghenion dysgu'r dysgwr yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, o fewn gofynion GDPR 2018 ac unrhyw ofynion

cyfreithiol eraill.

4.4 Ni fydd y Coleg yn ceisio cael gwybodaeth am gystadleuwyr drwy ddulliau annheg na drwgdybus.

4.5 Ni fydd y Coleg yn cymryd rhan mewn arferion annheg neu gyfyngol o ran recriwtio neu gadw dysgwyr.

4.6 Bydd y Coleg yn ymgynghori â sefydliadau a/neu ddarparwyr gwasanaethau y gallai unrhyw gynigion arwyddocaol ar gyfer newid y rhaglenni dysgu neu'r gwasanaethau mae'r Coleg yn eu cynnig effeithio arnynt.

5. Corff Llywodraethu (Corfforaeth)

5.1 Bydd y Corff Llywodraethu yn mabwysiadu Cod Ymddygiad iddo'i hun sy'n gyson â'r egwyddorion a bennwyd gan Bwyllgor Nolan a gofynion ei Offeryn a'i Erthyglau Llywodraethu.

5.2 Bydd y Coleg yn cadw cofrestr o Fuddiannau Llywodraethwyr a fydd yn agored i'r cyhoedd ei harchwilio. Bydd yn ofynnol i Lywodraethwyr gofrestru'r buddiannau hynny, sy'n berthnasol i waith y Coleg, yn ddigon manwl i ganiatáu i ymholwyr ddeall natur y buddiannau hynny.

5.3 Bydd Corff Llywodraethu'r Coleg yn ceisio sicrhau bod aelodau'n cael eu penodi ar sail teilyngdod, ar ôl proses ddethol agored, a'u bod yn gynrychiolaeth eang o'r gymuned mae'n ei gwasanaethu, gan ystyried yr angen am barhad a syniadau newydd, ac am ystod o sgiliau a diddordebau.

5.4 Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am bennu cenhadaeth a chymeriad addysgol y Coleg ac am oruchwylio ei weithgareddau; am wneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, solfedd y Gorfforaeth a diogelu ei hasedau; am gymeradwyo amcangyfrifon incwm a gwariant blynyddol; ac am drefniadau penodi, disgyblu, tâl ac amodau gwasanaeth staff, yn unol â'r Erthyglau Llywodraethu.

5.5 Bydd y Corff Llywodraethu yn mabwysiadu gweithdrefnau sy'n sicrhau penderfyniadau ariannol, rheolaeth a monitro cadarn er mwyn bodloni gofynion y corff cyllido ac archwilio cyhoeddus.

5.6 Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod gwybodaeth am ei benderfyniadau a gwaith y Coleg ar gael yn eang, gan ystyried cyfrinachedd priodol fel y penderfynir gan y Corff Llywodraethu ac unrhyw ofynion cyfreithiol.

6. Rheolaeth a Staff

6.1 Bydd y Coleg yn mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer ei weithwyr, yn seiliedig ar egwyddorion tebyg i'r rhai ar gyfer aelodau o'r Gorfforaeth.

6.2 Bydd Cod Ymddygiad y Staff yn gwahardd gweithwyr rhag ceisio na derbyn cymhellion yng nghyd-destun unrhyw fater sy'n ymwneud â gweithrediad y Coleg.

6.3 Bydd y Cod Ymddygiad i staff yn gyson ag egwyddorion Rhyddid i Lefaru, o ran parchu rhyddid y staff academaidd, o fewn y gyfraith, i gwestiynu a phrofi doethineb, ac i gyflwyno syniadau newydd neu safbwyntiau dadleuol neu amhoblogaidd, heb beryglu eu cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys hawl staff i siarad yn agored a heb fod yn destun cosbau disgyblu nac erledigaeth ynghylch safonau academaidd neu faterion cysylltiedig, ar yr amod eu bod yn gwneud hynny'n gyfreithlon, heb falais ac er budd y cyhoedd.

6.4 Pan fo'r Coleg yn cynnwys cymalau cyfrinachedd mewn contractau diswyddo, ni fydd hyn yn atal staff sydd â phryderon dilys am gamymddwyn rhag codi'r pryderon hynny gyda'r awdurdod priodol.

6.5 Fel Swyddog Cyfrifo'r Coleg o dan y Memorandwm Ariannol, y Pennaeth fydd yn gyfrifol am briodoldeb prosesau gwneud penderfyniadau ariannol a bydd yn hysbysu'r Corff Llywodraethu o unrhyw ofynion yng nghyd-destun materion sydd ger ei fron.

7. Perthnasau Allanol

7.1 Mae'r Coleg yn cydnabod ei fod yn gyfrifol i'r gymuned mae'n ei gwasanaethu a bydd yn cymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth am ei weithgarwch allanol ar gael yn eang, gan nodi unrhyw ofynion cyfrinachedd a allai fod yn berthnasol ac a gaiff eu hesbonio yn ôl yr angen.

7.2 Bydd y Coleg yn ymatebol i'w gymuned ac yn fframwaith ei Ddatganiad Cenhadaeth ei hun bydd yn ceisio darparu rhaglenni a gwasanaethau sy'n berthnasol i anghenion unigolion a chyflogwyr.

7.3 Bydd y Coleg yn darparu gwybodaeth amserol a chywir hyd eithaf ei allu am ddysgwyr unigol i gyflogwyr neu eraill sy'n darparu nawdd; yn unol â chyfyngiadau GDPR 2018 ac unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol eraill.

7.4 Bydd y Coleg yn sicrhau bod ei gontractau gyda sefydliadau yn cydymffurfio â safonau moesegol derbyniol ac unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol, er enghraifft y ddyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddileu gwahaniaethu ar sail hil, i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i hyrwyddo cysylltiadau hiliol da.

8. Cydymffurfio a Gwirio

8.1 Bydd y Coleg yn mynnu bod ei holl weithwyr yn cadw at ei God Ymddygiad ar gyfer

staff.

8.2 Bydd y Coleg yn creu mecanweithiau lle gall ei weithwyr a'i ddysgwyr fynegi pryderon gwirioneddol am ymddygiad neu benderfyniadau maent yn eu hystyried eu bod yn ymwneud ag amhriodoldeb difrifol, ac i ymchwiliad gael ei gynnal iddynt, gyda phob sicrwydd rhesymol o gyfrinachedd fel y bo'n briodol.

8.3 Bydd y Gorfforaeth yn penodi unigolyn i fod yn gyfrifol am fonitro ymlyniad at God y Llywodraethwyr gan aelodau o'r Corff Llywodraethu, ac i ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod ac adrodd i'r Corff Llywodraethu. Bydd y Corff Llywodraethu yn penderfynu ar unrhyw gamau i'w cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod.

8.4 Y Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant fydd yn gyfrifol am gychwyn a goruchwylio ymchwiliadau i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad gan aelodau o staff, ac am sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd. Cadeirydd y Bwrdd, neu'r Is-Gadeirydd yn eu habsenoldeb, sy'n gyfrifol am y broses o ymchwilio i unrhyw achosion honedig o dorri'r Cod sy'n ymwneud â deiliaid uwch swyddi neu'r Swyddog Llywodraethu.

8.5 Mae'n bosib y bydd gofyn i archwilwyr y Coleg adrodd ar unrhyw arfer sy'n ymddangos fel pe bai'n torri'r Cod.

8.6 Bydd y Coleg yn sicrhau bod ei Godau'n cael eu cyhoeddi a'u bod ar gael yn eang.

9. Casgliadau

9.1 Bydd y Gorfforaeth yn adolygu'r Cod hwn bob dwy flynedd oni bai bod amgylchiadau'n gofyn am adolygiad cynharach.